O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 1054 (Cy. 114)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Nant-y-bwch i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*2 Mai 2013*
Yn dod i rym	*3 Mai 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Mai 2013. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Nant-y-bwch i Gylchfan Bryn-mawr, Blaenau Gwent) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. –(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00.01 o'r gloch ar 3 Mai 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd o ochr orllewinol Cylchfan Nant-y-bwch i Gylchfan Bryn-mawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar gerbytffordd tua'r dwyrain y darn o'r gefnffordd a nodir yn Atodlen 5(i).

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag mynd ar gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd a bennir yn Atodlen 5(i) ond, yn unol ag erthygl 10, ddim yn cael ei wahardd ar gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd a nodir yn Atodlen 3, ni chaiff neb wneud y canlynol: gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua'r gorllewin y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, i gael ei yrru ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5(ii) (iii) a (iv).

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

Cymhwyso

10. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, yn unol â darpariaethau adran 15(2) o Ddeddf 1984, na fydd y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn yn para dim hwy na 18 mis. Caiff y Gorchymyn hwn ei ddirymu pan gaiff y gwaith ei gwblhau.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Mai 2013

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.8 cilometr i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch;

ii) Y darn cyfan o gerbytffordd system gylchu Cylchfan Nant-y-bwch;

iii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch i gyfeiriad y dwyrain hyd at bwynt 300 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt trosbont Crown Avenue;

iv) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Heol Llangynidr (y B4560) i gyfeiriad y dwyrain hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Bryn-mawr.

ATODLEN 3

GWRTHLIF

Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch at bwynt 280 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch.

ATODLEN 4

GWAHARDD BEICWYR A CHERDDWYR

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch i gyfeiriad y dwyrain hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Ystad Ddiwydiannol Rasa;

ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt trosbont Heol Llangynidr ar y B4560 tua'r dwyrain hyd at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Bryn-mawr.

ATODLEN 5

GWAHARDD CERBYDAU

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 310 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch at bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch;

ii) Y darn hwnnw o gerbytffordd system gylchu Cylchfan Nant-y-bwch sy'n ymestyn o bwynt lle mae'r gerbytffordd tua'r gorllewin yn ymadael â'r system gylchu yn glocwedd at bwynt wrth ei chyffordd â'r allanfa tua'r gogledd ymlaen i Lwyn Helig;

iii) Y darn hwnnw o gerbytffordd system gylchu Cylchfan Nant-y-bwch sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Phant-y-dŵr i gyfeiriad clocwedd at bwynt lle mae'r gerbytffordd tua'r gorllewin yn ymuno â'r system gylchu;

iv) Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan Nant-y-bwch i gyfeiriad y dwyrain at bwynt am 37 o fetrau.